Rhif 44 **Yr Hen Wlad** Medi 2005

## At Gymry Patagonia

### Y Cynllun Athrawon

**Mae Cynllun Cyngor Prydeinig Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi fod Athrawon 2006 i'r Wladfa newydd gael eu penodi - Mari Phillips (Ysgol y Berllan Deg, Caerdydd) wedi ei phenodi o'r newydd ac yn cyrraedd Y Wladfa ym Mawrth 2006. Bydd Clare Whitehouse (Andes) ac Angharad Rowe (Trelew) yn aros ymlaen. Bydd y trefniant hwn yn parhau hyd ddiwedd Rhagfyr 2006.**

### Cystadleuaeth

**· Llongyfarchiadau i'r canlynol ar ennill gwobrau yng nghystadleuaeth Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Eryri a'r Cylch, 2005 i rai sydd wedi byw yn Y Wladfa ar hyd eu hoes ac yn dal i fyw yn Ariannin:**
**£75 yr un i Gweneira Davies de Quevedo, a Luned Vychan Roberts de González a £25 yr un i Esther E. Hughes ac Eurgain Roberts Jones. Yn ei feirniadaeth mae'r beirniad, Glyn Evans, yn annog y pedair "i ddod at ei gilydd gyda'r bwriad o grynhoi eu gwybodaeth a'u hatgofion i lunio un cyhoeddiad. Byddai'n ddifyr odiaeth."**

·Ynglŷn â'r gystadleuaeth yn y rhifyn diwethaf, dyma'r enw cyntaf o'r het: Alwina Thomas, Buenos Aires. Diolch yn fawr iawn i chwi i gyd am eich diddordeb a'ch cefnogaeth. Daliwch ati i gystadlu. Golygydd: Marian E. Roberts, Gorwelion, Cae Bryn, Y Groeslon, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7SU ebost: marianelias@cymru1.net

# Cae'r Gors

Ar Fedi 21 dyfarnodd Cronfa Dreftadaeth y Lotri y swm o £656,000 i Gyfeillion Cae'r Gors i sefydlu Canolfan Dreftadaeth Kate Roberts yn ei hen gartref, Cae'r Gors ger Caernarfon. Golyga hyn ail-wneud yr hen gartref yn union fel yr oedd yng nghyfnod plentyndod Dr Kate Roberts, (fel amgueddfa), codi adeilad newydd yn y cefn ar gyfer ymwelwyr a phlant ysgol, a rhoi'r cynllun ar ei draed am y pum mlynedd nesaf trwy gyflogi Rheolwr a dau weithiwr rhan-amser.

Dechreuwyd casglu arian i brynu'r tŷ yn 1964 gyda'r bwriad o'i adfer ond ni lwyddwyd i godi digon o arian i hynny ac fe'i cadwyd fel murddun. Dirywiodd y murddun ac yn 1995 ffurfiwyd Cyfeillion Cae'r Gors dan arweiniad y diweddar Guto Roberts. Dyfal donc a dyr y garreg fu hi wedyn ond er mis Medi 2002 llwyddwyd i gyflogi swyddog amser llawn i weithio ar y cynllun dan nawdd Cronfa Dreftadaeth y Lotri.



# Cyd-ddigwyddiad

Bu Aldo, Alwen ac Alin Sangiovanni o Drevelin, Cwm Hyfryd, am ychydig o wyliau yng Nghymru ym mis Gorffennaf eleni. Fore Llun, Gorffennaf 18 yr oeddent wedi mynd i Borthmadog i gyfarfod â'r bws Trawscambria i fynd i Aberystwyth.

Pwy oedd yn disgwyl yr un bws yn union â hwy ond teulu arall o Drefelin a ddigwyddai fod yn gymogion agos iddynt!

Dyma nhw o'r chwith i'r dde (yn y rhes gefn): Mabel Sánchez, Shirley Edwards, Erica Sánchez, Irma Sánchez (mam Erica) a Merni Edwards (modryb Erica) yna tad Erica. Alwen sydd yn eistedd ar ei chwrcwd ac mae Alin ac Aldo hefyd yn y rhes flaen. Cawsant gyd-deithio i Gorris sydd tua thri chwarter y ffordd i Aberystwyth o Borthmadog.

Ar y dydd Sadwrn canlynol yr oedd Erica yn



*Llun: Yr Hen Wlad*

priodi ym Mhorthmeirion, tua dwy filltir o Borthmadog ac roedd y teulu wedi dod i'r briodas. Fe wyddai Alwen am y briodas a gwyddai Erica fod Alwen a'r teulu yn dod ar eu gwyliau i'r ardal ond ychydig a feddyliai y ddwy byddai'r ddau deulu yn taro ar ei gilydd mor annisgwyl yn yr Hen Wlad.

Mae Christian yn gogydd yng Ngwesty Porthmeirion ac mae Erica yn fyfyriwr yng Ngholeg Meirion Dwyfor, Pwllheli, yn dilyn cwrs i fod yn athrawes Sbaeneg.

# Bardd y Gadair



Tudur Dylan. Ei dad sydd y sefyll gerllaw iddo.

Enillwyd cadair Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Eryri a'r Cylch, gan Tudur Dylan Jones, yn wreiddiol o Fangor ond yn awr yn athro Cymraeg yn Llanelli. Dyma ei ail gadair. Cafoddd hefyd wobr ariannol o £750.

Y cyn Archdderwydd, Y Prifardd John Gwilym Jones sydd yn sefyll wrth ei ochr, sef ei dad.

Ysgrifennodd awdl mewn cynghanedd gyflawn ar y testun 'Gorwelion' ac mae'n canu am y fraint sy'n dod i ran rhieni i drosglwyddo straeon hanes i'r genhedlaeth nesaf. Yn yr awdl mae'r tad, wrth adrodd gwahanol straeon o fyd y Mabinogi wrth ei ferch, yn ofni fod ei gof yn pallu.



Cadair dderw ydyw o waith John Parry, cyn-athro gwaith coed o Borthmadog.

# Bardd y Goron



Dr Christine James oedd enillydd y Goron ynghyd â £750 yn yr Eisteddfod. Yr oedd 36 o ymgeiswyr a gofynnwyd am gasgliad o gerddi rhydd heb eu cyhoeddi ar unrhyw thema a heb fod dros 300 llinell. Ysgrifennodd gasgliad o gerddi yn ymateb i weithiau celf gwahanol artistiaid a chafodd ganmoliaeth uchel iawn.

Darlithydd yn Adran y Gymraeg Prifysgol Cymru, Abertawe ydyw wrth ei galwedigaeth ac mae hi'n awdurdod ar destunau Cyfraith Hywel Dda ddiwedd yr Oesoedd Canol.

Gwnaed y goron gan Ann Catrin Evans, gof lleol gan ddefnyddio arian a llechen (carreg las sydd yn nodweddiadol o'r ardal).

# Dawns y Glocsen

Bydd cystadleuaeth dawns y glocsen yn Eisteddfod Y Wladfa ym mis Hydref am y tro cyntaf erioed.

*Yn y llun gwelir llywydd Cymdeithas Ddawnsio Gwerin Cymru, Jean Huw Jones yn cyflwyno clocsiau i Jorge Leccese (Gaiman), Luis Chavarria Owen (Comodoro Rivadavia), Juan Alberto Davies (Trelew). Yn y llun hefyd mae wyresau Jean Huw Jones a Rhys Jones (canol).*



Roedd Jean a Huw Jones ym Mhatagonia yn 1992, gyda grŵp dan arweiniad y diweddar Barchedig Glyn Ceiriog Evans, Y Groes, Dinbych, pan gafwyd y syniad o ddanfon pobl ifainc draw i Gymru ar gwrs Cymraeg yng Ngholeg Dewi Sant, Llambed. Codwyd swm sylweddol gan y grŵp i gynorthwyo i wireddu'r syniad, gydag un aelod, Rhys Jones (uchod), rheolwr banc yn Llangefni, yn gweithredu fel trysorydd cyn iddo ddod yn Drysorydd Cymdeithas Cymru-Ariannin.

Mae'r cynllun hwn yn awr dan nawdd y Cyngor Prydeinig, y Cynulliad a Chymdeithas Cymru Ariannin.

Daeth tri o fyfyfyrwyr cwrs Llanbedr Pont Steffan eleni i gyfarfod â Jean a Huw Jones gan dderbyn y clocsiau dros y dawnswyr draw ym Mhatagonia.

Dewiswyd Llangynwyd ger Maesteg ar gyfer hyn oherwydd y cysylltiadau lleol â Phatagonia ac am fod grwpiau dawnsio gwerin yn yr ardal. Cyd-ddigwyddiad yw'r ffaith bod un o'r myfyrwyr, Luis Chavarria Owen, yn hanu o deulu Guilford o ardal Penyfai a Llangynwyd, a ymfudodd i Batagonia yn yr 1870au a thynnwyd lluniau o flaen drws eglwys hynafol Llangynwyd.

Roedd Jean Huw Jones eisoes wedi anfon fideo yn dangos sut i ddawnsio a bu dawnswyr ifainc Crymych yna y llynedd yn ennyn diddordeb pellach.

# Ocsiwn

Yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru y llynedd, o ganlyniad i apêl gan Catrin Morris de Junyent, codwyd dros £1,000 mewn ocsiwn i godi arian i Ysgol Feithrin Gymraeg yn Nhrelew.

Bu arwerthiant eleni yn fwy llwyddinnus fyth a chodwyd y swm o £10,500. Dafydd Wigley, y cyn aelod seneddol oedd yn trefnu a hynny mewn cydweithrediad â Cathrin Williams a gwahanol grwpiau. Bu Dafydd Wigley yn Y Wladfa yn ystod yr hydref y llynedd gan fod ei wraig, Elinor Bennett yn beirniadu yno. Yr Arwerthwr oedd Dai Jones, Llanilar, y cyflwynydd teledu sydd wedi ymweld â'r Wladfa ac wedi cyflwyno rhaglenni am y Wladfa.

Yr oedd 47 o eitemau ar werth, yn cynnwys rhai a bostiwyd o Batagonia. Yr eitem ddrutaf oedd darlun gwreiddiol dyfrliw o fryniau Patagonia o waith Syr Kyffin Williams, a werthwyd am £5,500 ac yr oedd rhai lluniau o waith Delyth Llwyd, mewn lliw, o olygfeydd o'r Wladfa. Hefyd ffilm fideo 22 munud a grewyd o ffilm cine ar ymweliad minati o Gymry â'r Wladfa adeg y canmlwyddiant. Tynnwyd y ffilm gan Dafydd Wigley. Yr oedd darlun swyddogol yr Eisteddfod gan William Selwyn, wedi ei arwyddo gan brif fuddugwyr yr Eisteddfod. Hefyd mae cerddi sy'n berthnasol i Batagonia gan Mererid Hopwood, Dafydd Iwan a Myrddin ap Dafydd wedi eu hysgrifennu yn llawysgrif y beirdd.

# Meini'r Orsedd



Eleni, am y tro cyntaf, nid cerrig mawr trymion yn pwyso tunelli yw meini'r orsedd, ond rhai plastig, symudol.

Roeddent yn edrych yn union yr un fath â cherrig go iawn. Fe'u gwnaed i geisio arbed arian i'r Eisteddfod ac er mwyn cael y seremoniau ar y prif faes. Yn ôl Elfed Roberts, Cyfarwyddwr yr Eisteddfod: "Mantais fawr y cerrig artiffisial ydi ei bod yn rhwydd i'w codi a'u symud. Fydd y rhain ddim yn creu problem i dirfeddianwyr, gan mai ychydig o dirfeddianwyr sy'n fodlon i ni roi cerrig parhaol ar eu safle. Ond mae'r rhai plastig yn ein galluogi ni i wneud hynny."

# Gŵyl y Glaniad

Dydd Sadwrn, Gorffennaf 23, cynhaliwyd seremoni fer ym mynwent Yr Hen Gapel,



Elan Jones a'r Parchedig Eirian Wyn Lewis yn good y dorch wrth fedd Michael D. Jones yn Llanuwchllyn. Llun: *Y Cyfnod*

Llanuwchllyn, lle gosodwyd torch o flodau ar fedd Michael D. Jones i nodi 140 mlynedd er y Glaniad cyntaf ym Mhatagonia. Gosodwyd y dorch gan Elan Jones, Lerpwl, un o Lywyddion Anrhydeddus y Gymdeithas. Mae Elan yn frodor o Dir Halen. Yn dilyn hyn cafwyd sgwrs fer gan y Parchedig Dafydd Tudur Jones, Bangor, ac yna gorymdeithiwyd y tu ôl i faneri Cymru ac Ariannin i Neuadd y Cyfnod i fwynhau bwyd ac yna adloniant gan Alejandro Jones, Trevelin, pan oedd draw yng Nghymru am rai misoedd.

# Myfyrwyr o'r Wladfa



*Llun: Y Cyfnod*

Y myfyrwyr o Chubut oedd yn Llambed eleni yn dilyn cwrs dwys Cymraeg am 8 wythnos oedd – o'r chwith: Jorce Leccesse, Gaiman; Joan A. Davies, Trelew; Luis Owen, Comodoro Rivadavia; Marina M. Cid, Esquel; Debora D. Vasquez, Gaiman a Judith B. Jones, Gaiman. Yma maent ym mynwent Yr Hen Gapel, Llanuwchllyn.

# Pla geifr



Mae trigolion Beddgelert yn Eryri wedi cwyno wrth y cyngor lleol am y geifr gwylltion sydd yn crwydro hyd eu strydoedd a'u gerddi.

Yn y gorffennol, byddai'r geifr yn eu cyfyngu eu hunain i grwydro'r creigiau geirwon uwchben Beddgelert a'r ardaloedd cyfagos ond maent wedi cynyddu mewn niferoedd "Maen nhw ym mhob man yma, yn dod dros y ffensys a'r cloddiau ac yn bwyta'r coed a'r blodau," meddai'r ffarmwr Kenneth Owen. "Rydan ni wedi plannu tua 6,000 o goed ac mae dros eu hanner nhw wedi eu difetha. Mae sôn fod y geifr wedi bod yn pori yma ers oes y Rhufeiniaid. Ond mae'r niferoedd wedi cynyddu'n sylweddol a hynny yn ystod y pum mlynedd diwethaf. "

Mae'r awdurdodau wrthi'n cynnal arolwg o'r sefyllfa.

## Canolfan Hanes Uwchgwyrfai



Penodwyd Diane Jones, 27 oed yn Rheolwr Canolfan Hanes Uwchgwyrfai, Clynnog Fawr, a dechreuodd ar ei swydd ar Fedi 1.

Cafodd ei geni a'i magu yn yr ardal. Bu'n athrawes mewn Ysgol Uwchradd a chyn hynny bu'n gweithio i Gymdeithas Tai Clwyd. Bydd adeiladwyr yn dechrau atgyweirio'r Ganolfan ar Hydref 3 a gobeithir ei hagor yng Ngwanwyn 2006.

Mae'r Cynllun hwn yn un o nifer trwy Gymru sydd wedi llwyddo i ddenu arian Ewrop i sefydlu busnesion yn rhai o ardaloedd tlotaf y wlad. Llwyddodd y Ganolfan hon i ddenu 67% o'r arian angenrheidiol o Ewrop a'r gweddill gan Y Cynlliad, Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri. Yn ychwanegol at hyn cafwyd arian gan Enfys ac Amgylchedd Cymru i sefydlu Gardd Hanesyddol yng nghefn yr adeilad. Mae'r holl gynllun yn werth ychydig dros £500,000.

Pwrpas y cymhorthdal hwn yw atgyweirio'r adeiladau a neilltuo digon o arian i osod y Ganolfan ar seiliau cadarn. Yna, pan ddaw'r cymhorthdal i ben yn 2008, disgwylir i'r Ganolfan fod yn hollol hunangynhaliol.

# Cystadleuaeth

Dyma'r enw cyntaf o'r het yn y gystadleuaeth yn y rhifyn diwethaf o'r Hen Wlad: Alwina Thomas, Buenos Aires. Diolch yn fawr iawn i chwi i gyd am eich diddordeb a'ch cefnogaeth. Daliwch ati i gystadlu. Golygydd: Marian E Roberts, Gorwelion, Cae Bryn, Y Groeslon, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7SU ebost: marianelias@cymru1.net

### Adeilad newydd y Cynulliad

Bydd adeilad newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael ei agor yn swyddogol ar Ddydd Gŵyl Dewi 2006 ac yn ddiweddar cafodd yr aelodau gyfle i'w weld am y tro cyntaf.



Mae'r adeilad yn cynnwys deunyddiau Cymreig, derw, llechen a gwydr.

Mae'r cyfan ar ffurf cylch yn y dull Ewropeaidd ac yn cychwyn ar y chwith eithaf gyda'r aelodau Annibynnol, Plaid Cymru, Llafur, y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr.



Wrth drafod y costau o £60m i adeiladu'r cartref newydd y drws nesaf i safle presennol y cynulliad dywedodd y Llywydd nad oedd rhaid cyfiawnhau'r costau i'r genhedlaeth bresennol ond dywedodd bod rhaid "cyfiawnhau'r costau am 150 o flynyddoedd".

Ond bu cryn wrthwynebiad i'r syniad o wario £60 miliwn ar yr adeilad hwn. Roedd Ceidwadwyr Cymru yn eu mysg a dywedodd un aelod o'i haelodau nad oedd am gymryd ei le yno. Ond erbyn hyn mae wedi meirioli: "Dwi ddim yn falch eu bod wedi gwario cymaint ond wedi ei weld dwi am gymryd fy lle," meddai.

# Yr Iaith Wyddeleg

Mae'r iaith Wyddeleg yn iaith swyddogol yn yr Undeb Ewropeaidd erbyn hyn. Hon yw'r unfed iaith ar hugain i gael statws swyddogol yn yr Undeb.Golyga hyn gyfieithu dogfennau swyddogol Ewrop i'r Wyddeleg a rhoi bri iddi yn Iwerddon.

Yn ôl Dermot Ahern, Gweinidog Tramor Gweriniaeth Iwerddon mae 1.4 miliwn o 4 miliwn yn medru siarad yr iaith, hynny yw, chwarter y boblogaeth.

Mae gweinidogion tramor Ewrop wedi cytuno ar fframwaith sy'n rhoi statws rhannol swyddogol i'r Gatalaneg, Y Fasgeg a'r Galiseg.

Ond beth am Y Gymraeg? Yng ngeiriau Jill Evans, Aelod Seneddol Ewrop Plaid Cymru, "mae'r cytundeb hwn yn agor y drws i'r Gymraeg gael yr un statws os yw'r ewyllys gan Lywodraeth Prydain."

# Nofel am Y Wladfa



Er mai seremonïau cadeirio a choroni'r beirdd byddugol sydd yn denu'r cynulleidfaoedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol, enillydd cystadleuaeth Y Nofel a gafodd yr arian mawr. Enillodd Dr Sian Eirian Rees Davies wobr o £5,000 yn y gystadleuaeth honno, sef Gwobr Goffa Daniel Owen a chafwyd seremoni yn y Pafiliwn.

Cafodd ei geni a'i magu ym Madryn Isaf – ffarm ym Mhen Llŷn. Yn ystod 2004-05 bu yn diwtor Cymraeg ail iaith yng Ngholeg Iâl Wrecsam ond mae yn awr yn dilyn cwrs ysgrifennu creadigol yng Ngholeg Menai.


Mae ei nofel fuddugol, ***I FYD SY WELL***, yn adrodd hynt a helynt y fintai gyntaf i Batagonia ar y Mimosa a cheir y nodyn hwn ar y dechrau: ***Mae nifer o brif ddigwyddiadau'r nofel hon wedi eu seilio ar atgofion a hanesion gwir. Serch hynny, ffug yw'r holl gymeriadau, hyd yn oed pan wyf wedi rhoi enwau ffeithiol ar y cymeriadau hyn.***

Ond mewn gwirionedd mae hi wedi mynd dros ben y llestri yn lân ac wedi gorliwio'r cymeriadau i'r fath raddau nes peri gofid i'r darllenwyr sydd yn gyfarwydd â hanes yr arwyr cynnar.

Meddai Elvey MacDonald: *"I ddarllenwyr nad ydynt yn gwybod dim byd am y cymeriadau hynny mae'r nofel hon yn apelio'n fawr ond yn bersonol rwy'n ei chael hi'n anodd i'w darllen. Does ganddi ddim hawl i ddweud beth wnaeth hi. Nid oes unrhyw dystiolaeth o gwbl i gefnogi ei safbwynt. Rydw i'n anhapus iawn hefyd ei bod wedi dyfynnu paragraffau allan o'r "Hirdaith" ar ddechrau penodau oherwydd dwi ddim isio bod yn gysylltiedig â'r gyfrol mewn unrhw fodd."*

# Dyweddïo

Llongyfarchiadau i Luis Austin, Esquel, a Heddus Gwynedd, Waunfawr, Caernarfon, ar



eu dyweddïad yn ddiweddar. Mae Luis wedi dychwelyd i'r Wladfa erbyn hyn ond bydd Heddus a'r teulu yn dod yna eto ym mis Chwefror 2006.

# Radio Ham

Yn ystod ei hymweliad â Chymru yn ddiweddar cafodd Alwen Sangiovanni gyfarfod ag Idris Jones a fu'n siarad yn rheolaidd dros y radio â'i thad, Fred Green, am rai blynyddoedd. Cadwodd Idris gofnod o gynnwys pob sgwrs ac o'r llyfr cofnodion hwn atgoffodd Alwen am y sgwrs a gafodd hithau ag ef pan oedd Alin yn ddau fis oed. Yn y llun isaf gwelir Alwen yn edrych ar lun ei thad ar y sgrin a'r ysgrifen "Lodes Unig 5 Wedi Siomi" sef ei enw cofrestredig.



*Llun: Idris Jones yn dangos y llyfr cofnodion i Alwen.*





# Yng Nghlust y Teleffôn

Colledion

Clywsom am y colledion mawr hyn yn ddiweddar a chydymdeimlwn yn fawr â'r teuluoedd a'u cymunedau:

- Awst 18 bu farw'r Fns Ann Griffiths, Trevelin, yn 88 mlwydd oed. Roedd yn fodryb, i Mary, Charlie, Eric Iolo ac Alwen Green.
- Medi 1af bu farw Ieuan Jones, 76 mlwydd oed, Dolavon, o ganlyniad i gael ei daro gan gerbyd ac yntau wedi mynd am dro ar gefn ei feic efo'i frawd. Priod Eryl. Rhyfeddem oll at goethder ei Gymraeg pan siaradai'n gyhoeddus.
- Medi 10fed, bu farw Mrs Gwalia Hughes de Humphreys mam John, Marta, Nelia a Glenda. Roedd Gwalia yn chwaer i Glyn Hughes ac yn wreiddiol o Moriah.

**Gwefan** Mae tri o CYMAL sydd newydd ddychwelyd ar ôl ymweliad â'r Wladfa yn llunio gwefan o'r enw Glaniad a gychwynnir ym Mawrth 2006. Bydd yn dairieithog - Cymraeg, Sbaeneg a Saesneg – ac yn rhoi hanes y sefydlwyr cynnar.

**Ffilm**


Clywsom am y ffilm ddogfen Caer Antur a ddangoswydd yn Rawson i ddathlu ei sefydlu 140 mlynedd yn ôl a bod y ffilm yn adrodd hanes dechrau'r Wladfa o safbwynt Edwyn Roberts ac mai gwirfoddolwyr lleol oedd yn cymryd rhan dan gyfarwyddyd Patricia Lorenzo Harris, un o ddisgynyddion yr Hen Wladfawyr.

---



Mair Edwards, yn awr o'r Bala, a chwaer i Eryl Jones, Dolavon. Cydymdeimlwn â hithau yn ei phrofedigaeth o golli Ieuan Jones, ei brawd yng nghyfraith.

Isod: Gwen ac Eilyw Pritchard, Comodoro Rivadavia ar eu hymweliad â'r Eisteddfod eleni.



## Cystadleuaeth

***Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Abertawe a'r Cylch, 2006***

*i rai sydd wedi byw yn y Wladfa ar hyd eu hoes ac yn dal i fyw yn Yr Ariannin.*

**Portread o dri arweinydd Gwladfaol o 1900 hyd at heddiw (rhwng 1,500 a 2,000 o eiriau yr un).**

*Gwobr: £2,000 (Gwobr Goffa Shân Emlyn)*
*Beirniad: Marian Elias Roberts*
*Dyddiad cau: Ebrill 1 2006*

*Gellir anfon y deunydd at Ceris Gruffudd, Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion. SY23 3HE*

## ???

Chwiliwch am yr atebion cywir yn y papur hwn. Os anfonwch at y Golygydd erbyn Tachwedd 30 2005 (gan roi eich enw) rhoir eich ymgais mewn het a'r ymgais gywir gyntaf a dynnir ohoni gaiff gyhoeddi ei enw yn y rhifyn nesaf o'r *Hen Wlad*. (Gweler tudalen 4 am y cyfeiriad.)

1. Beth sydd yn mynd i ddigwydd ar yr Ŵyl Ddewi nesaf?
2. Pwy sydd am fod yn athrawes Sbaeneg?
3. Mae hi wedi ennill pum mil o bunnau.
4. Crwydrwyr mynyddoedd fel arfer.
5. O ble y daw Mabel?
6. Pwy yw'r Llywydd Anrhydeddus?
7. Pwy oedd yn gyfrifol am yr adloniant?
8. Beth yw enw'r gof?
9. Tad a mab enwog.
10. Enw'r saer.

---

Alejandro Jones sydd bellach wedi dychwelyd i'r Wladfa ond a wnaeth argraff fawr ar bobl Llanuwchllyn pan fu yno am rai misoedd yn ddiweddar. Ymaelododd â Chôr Godre'r Aran a bu'n gweithio fel ffensiwr ar ffermydd gan aros efo Aur Roberts a'r teulu.



## Dymuniadau Da

Pob dymuniad da i Esyllt Nest Roberts a Christian Lewis ar eu dyweddïad yna.